AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
POLISI AMGYLCHEDDOL 2013

Dibenion Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yw gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwyllt a threftadaeth ddiwylliannol y Parc, a hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o'i nodweddion arbennig. Yn ogystal, mae'n anelu at feithrin lles economaidd a chymdeithasol cymunedau'r Parc.

Wrth gyflawni'r dibenion hyn, mae'r Awdurdod yn ymroddedig i leihau unrhyw effeithiau negyddol ar yr amgylchedd ac yn ceisio annog cymunedau, ymwelwyr a sefydliadau partner i wneud yr un fath. Wrth ymgymryd â'r dyletswyddau hyn, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn ymrwymedig i egwyddorion datblygiad cynaliadwy mewn perthynas â'i bolisïau cyffredinol, yn ogystal â'i bolisïau penodol (mewnol).

Rydym wedi adnewyddu ein system rheoli i gwrdd â gofynion Safon Amgylcheddol BS 8555 sy'n cael ei arolygu gan y trydydd parti lleol Gwasanaethau Archwilio Cymraeg Tarian wedi ei achredu gan UKAS.

Yr ydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i egwyddorion allweddol arfer gorau amgylcheddol trwy atal llygredd, cydymffurfiaeth gyfreithiol a gwelliant parhaus. Rydym wedi sefydlu amcanion a thargedau newydd i ategu'r ymrwymiadau hyn. Yn benodol, byddwn yn:

- Parhau i fonitro a mesur ynni, gwastraff, dŵr, trafnidiaeth ac unrhyw effeithiau amgylcheddol eraill a nodwyd fel y gallwn fesur llwyddiant y camau a gymerwyd i leihau eu defnydd
- Defnyddio trydan "gwyrdd" ar gyfer holl ofynion trydan yr Awdurdod, lle bo hynny'n ymarferol
- Ystyried safonau BREEAM i'r holl waith adeiladu newydd a gwaith adnewyddu a ymgymerir ag o gan yr Awdurdod ac ar gyfer ceisiadau grant CAE
- Datblygu prosiectau peilot Ynni Adnewyddadwy a fydd yn arddangos ymrwymiad yr Awdurdod tuag at gynaliadwyedd
- Parhau i ddefnyddio fideo-gynadledda i leihau milltiroedd teithio
- Annog staff i fod yn ofalwyr tŷ "gwyrdd" er mwyn lleihau effeithiau amgylcheddol
- Annog staff i leihau, ailddefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu er mwyn lleihau gwastraff a llygredd
- Cynnal lefel uchel o ymwybyddiaeth o faterion cynaliadwyedd ymysg staff a defnyddwyr y Parc drwy gyfleu ein Polisi Amgylcheddol i bawb sydd â diddordeb
- Annog arferion amgylcheddol da drwy gyfrwng ein grantiau a chytundebau rheoli tir

Aneurin Phillips – Prif Weithredwr
Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Dyddiedig: 25 Ebrill 2013